OBJECTIVE 1 TURNS THE FINAL CORNER

Year 7 of Objective 1 in Ceredigion, the penultimate year in its lifetime. Despite the problems in raising the wealth in the region after seven years of support, advice and guidance we have made some headway into boosting the local economy. Baseline figures from WEFO's Quarterly Outputs Report show that since conception in 2000 **842 jobs** have been created in Ceredigion by **68 local projects alone**. The total proposed investment on all types of project has amounted to **£64.5m**. Grant money approved to date totals **£25m** of which only £3m has not yet been drawn down.

Entrepreneurship has been boosted through the creation of **140 new SMEs in Ceredigion,** set up with the help of Objective 1 since 2000. **1,889 existing SME's** have been assisted, some with support and advice, others with grants. Training has been high on the agenda too with **1,186 beneficiaries** funded in a plethora of training fields from plumbing apprenticeships, to entry-level courses to Aberystwyth and Lampeter universities. Courses have helped to raise the skills level across the board. (WEFO Monitoring Data October 2007).

Some local Project launches in 2007

Corlan (February) Run by *Small World Theatre* based in Cardigan, *Corlan* works with lesser-privileged communities in the Llandysul area. Objective 1 funding has allowed locals to participate in a range of Arts based activities and workshops; including producing fabulous giants, costumes and masks for '*Llandysul Carnival'*, and putting on an '*Air and Kite Festival* in late Autumn.

Welsh Wildlife Centre (March) New all-weather facilities launched in Easter at the *Welsh Wildlife Centre* in Cilgerran near Cardigan as part of the *Teifi Estuary Environmental Management Initiative*. Circa **£300k** in Objective 1 funding has allowed for the building of 1 new admin block freeing up one whole floor in the centre for interactive games and interpretation boards for families, whatever the weather. Visitors are now spending more time in the centre than before and the season has been extended by 3 months a year, creating continuous employment for the 2 managers there.

Llangrannog Storytelling Centre (April) The new heritage educational centre for the *Urdd Gobaith Cymru* in Llangrannog was funded **£429k** by Objective 1 and was borne out of the concern the community felt about their local folklore dying out. The once disused buildings now serve as a storytelling centre with professional storytellers bringing history to life for young people. Dressed in

costume they re-enact local tales as they walk through the countryside, characters appearing from caves or from behind trees along the way.

EU Hide at Cors Caron (June) The *Countryside Council for Wales* opened a new **£80k** bird hide this summer at *Cors Caron Nature Reserve*, an important peat marshland as part of a series of initiatives to improve visitor facilities on some of Wales' most well known National Nature Reserves. The nature reserve attracts over 20,000 visitors per year.

Teifi Estuary Environmental Management Initiative (July) Costing £2.7m this project has improved existing infrastructure in order to market the estuary as a great place for Recreational Boating, Environmental Tourism, Walking and Cycling. Objective 1 monies to the tune of **£1.1m** were spent rebuilding *Prince Charles Quay* in the centre of Cardigan, refurbishing the old Cardigan port area; constructing a new slipway and Boat Park and installing new landing stages along the coast (as well as the work done at the Welsh Wildlife Centre). This project is part of a larger regeneration plan in the south of the county.

Mydroilyn Village Hall (July) This community facility has been transformed into a modernised building following an extension and renovation work funded by Objective 1. The village hall committee worked hard to get their **£105k** European Objective 1 Grant and is now able to cater to all interests in the local community and a greater range of activities such as Short Mat Bowls, Yoga, Badminton, Snooker and Keep Fit.

See3D (October) Aberystwyth University's new £10.4m *See3D Visualisation Centre* was formally opened this year, **£4.4m** coming from Objective 1. The technology is a communication tool that can be used in a huge range of applications from car design to understanding DNA structure. This development is now within reach for many small businesses in Wales.

Rhoserchan (October) The charity *Rhoserchan*, nestling in the hills above Penrhyn-coch, officially launched its new premises this autumn with a grant amounting to **£550k** from Objective 1. The charity is using the building as a residential centre for the treatment of people suffering from substance misuse.

Ysbryd Y Mwynwyr-Spirit of the Miners This key funds project has funded 20 projects diverse in the methods they use to promote the mining legacy of the uplands in Ceredigion. Projects range from mine site restoration to the commissioning of a film script based on a true story in a local mining village.

Projects Launching in Spring/Summer of 2008

- *Theatr Arad Goch* will open its new doors in Bath Street, Aberystwyth.
- *Small World Theatre* will launch its new community arts building next door to *Theatr Mwldan* in Cardigan.
- *Cardigan Bay Coastal Path* will next year offer visitors an uninterrupted coastal path helping to support recreational opportunities and manage the natural environment in Ceredigion.
- *Ystwyth Trail* a cycle path that runs from Tregaron to Aberystwyth following the disused railway line will be officially opened in 2008.

For more information on our projects you can visit our website www.euceredigion.co.uk, email the team on ewro@ceredigion.gov.uk or ring the team on 01545 572063.

AMCAN 1 YN TROI'R GORNEL OLAF

Blwyddyn 7 Amcan 1 yng Ngheredigion, ei flwyddyn olaf ond un. Er gwaethaf y problemau a gafwyd wrth gynyddu cyfoeth yr ardal wedi saith mlynedd o gefnogaeth, cyngor ac arweiniad, rydym wedi profi peth llwyddiant wrth hybu'r economi leol. Mae ffigyrau gwaelodlin yn Adroddiad Canlyniadau Chwarterol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn dangos fod **842 o swyddi** wedi'u creu yng Ngheredigion gan **68 o brosiectau lleol yn unig** er 2000. Cyfanswm y buddsoddiad arfaethedig ar bob math o brosiectau yw **£64.5m**. Cyfanswm yr arian grant a gymeradwywyd hyd heddiw yw **£25m**, a dim ond £3m o hwnnw sydd heb ei dynnu i lawr hyd yma.

Rhoddwyd hwb i entrepreneuriaeth drwy greu **140 o Fusnesau Bach a Chanolig (SME) yng Ngheredigion,** a sefydlwyd gyda chymorth Amcan 1 er 2000. Cynorthwywyd **1,889 o Fusnesau Bach a Chanolig presennol**, rhai gyda chefnogaeth a chyngor, ac eraill gyda grantiau. Mae hyfforddiant wedi bod yn flaenoriaeth uchel hefyd, gyda **1,186 o fuddiolwyr** wedi'u hariannu mewn amrywiaeth o feysydd hyfforddiant o brentisiaethau gwaith plymer, i gyrsiau lefel mynediad i

brifysgolion Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan. Mae cyrsiau wedi helpu i godi'r lefel sgiliau ym mhob maes. (Data Monitro WEFO, mis Hydref 2007).

Rhai Prosiectau Lleol a Lansiwyd yn 2007

Corlan (mis Chwefror) Mae *Corlan*, a redir gan *Small World Theatre* yn Aberteifi, yn gweithio gyda chymunedau difreintiedig yn ardal Llandysul. Mae arian Amcan 1 wedi caniatáu i'r bobl leol gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a gweithdai Celfyddydol; gan gynnwys cynhyrchu cewri, gwisgoedd a mygydau gwych ar gyfer '*Carnifal Llandysul*', a chynnal '*Gŵyl Awyr a Barcudiaid*' ddiwedd yr hydref.

Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru (mis Mawrth) Lansiwyd y cyfleusterau pob tywydd newydd yng *Nghanolfan Bywyd Gwyllt Cymru* yng Nghilgerran ger Aberteifi yn ystod y Pasg, fel rhan o *Gynllun Rheoli Amgylcheddol Moryd Teifi.* Mae tua **£300,000** o arian Amcan 1 wedi galluogi adeiladu un bloc gweinyddol newydd gan ryddhau un llawr cyfan yn y ganolfan ar gyfer gemau rhyngweithiol a byrddau dehongli ar gyfer teuluoedd, beth bynnag yw'r tywydd. Mae ymwelwyr yn awr yn treulio mwy o amser yn y ganolfan nag erioed o'r blaen ac mae'r tymor wedi'i ymestyn gan dri mis y flwyddyn, gan greu cyflogaeth barhaus ar gyfer y ddau reolwr sy'n gweithio yno.

Caer Chwedlau, Llangrannog (mis Ebrill) Derbyniodd y ganolfan treftadaeth addysgol newydd ar gyfer *Urdd Gobaith Cymru* yn Llangrannog **£429,000** o arian Amcan 1, ac fe'i hysgogwyd gan bryder y gymuned bod chwedlau traddodiadol yr ardal yn prysur ddiflannu. Mae'r cyn adfeilion yn awr yn cael eu defnyddio fel Caer Chwedlau gyda chwedleuwyr proffesiynol yn dod â hanes yn fyw i bobl ifanc. Wedi'u gwisgo yng ngwisg y cyfnod, maent yn perfformio'r chwedlau lleol wrth iddynt gerdded drwy'r cefn gwlad, gyda chymeriadau yn ymddangos o'r ogofâu neu o'r tu ôl i goed ar hyd y ffordd.

Cuddfan yr UE yng Nghors Caron (mis Mehefin) Agorodd *Cyngor Cefn Gwlad Cymru* guddfan adar newydd gwerth **£80,000** yn ystod yr haf eleni yng *Ngwarchodfa Natur Cors Caron*. Mae'r corstir mawn pwysig sy'n rhan o gyfres o fentrau i wella cyfleusterau i ymwelwr yn rhai o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol enwocaf Cymru. Mae'r warchodfa natur yn denu dros 20,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Cynllun Rheoli Amgylcheddol Moryd Teifi (mis Gorffennaf) Mae'r prosiect hwn, a gostiodd £2.7m, wedi gwella'r isadeiledd presennol er mwyn marchnata'r foryd fel lle ardderchog ar gyfer Hwylio Hamdden, Twristiaeth Amgylcheddol, Cerdded a Beicio. Gwariwyd gwerth **£1.1m** o arian Amcan 1 wrth ailadeiladu *Cei'r Tywysog Siarl* yng nghanol Aberteifi, gan ailwampio hen ardal porth Aberteifi; adeiladu llithrfa newydd a Pharc Cychod a gosod llwyfannau glanio newydd ar hyd yr arfordir (ynghyd â'r gwaith a wnaed yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Cymru). Mae'r prosiect hwn yn rhan o gynllun adfywio mwy yn ne'r sir.

Neuadd Bentref Mydroilyn (mis Gorffennaf) Mae'r cyfleuster cymunedol hwn wedi'i weddnewid i mewn i adeilad modern yn dilyn estyniad a gwaith adnewyddu a ariannwyd gan Amcan 1. Gweithiodd pwyllgor y neuadd bentref yn galed iawn i ddenu Grant Amcan 1 Ewropeaidd o **£105,000** ac yn awr gall wasanaethu pob math o weithgareddau yn y gymuned leol gan gynnwys pethau fel Short Mat Bowls, Yoga, Badminton, Snwcer a Chadw'n Heini.

See3D (mis Hydref) Agorwyd *Canolfan Ddelweddu* newydd Prifysgol Aberystwyth – *See3D* yn ffurfiol eleni. Mae'r adeilad werth £10.4m, a daeth **£4.4m** gan Amcan 1. Mae'r dechnoleg yn offeryn cyfathrebu y gellir ei ddefnyddio mewn amrediad eang o gymwysiadau o ddylunio ceir i ddeall strwythurau DNA. Mae'r datblygiad hwn yn awr o fewn cyrraedd nifer o fusnesau bychain Cymru.

Rhoserchan (mis Hydref) Lansiodd yr elusen *Rhoserchan*, sydd wedi'i lleoli yn y mynyddoedd uwchben Penrhyn-coch, ei heiddo newydd yn swyddogol yr hydref hwn, gyda grant o **£550,000** gan Amcan 1. Mae'r elusen yn defnyddio'r adeilad fel canolfan breswyl ar gyfer trin pobl sy'n dioddef o gam-drin sylweddau.

Ysbryd y Mwynwyr Mae'r prosiect cronfa allweddol hwn wedi ariannu 20 o brosiectau amrywiol yn y dulliau maent yn eu defnyddio i hyrwyddo etifeddiaeth mwyngloddio ucheldir Ceredigion. Mae prosiectau yn amrywio o adfer safleoedd mwyngloddio i gomisiynu sgript ffilm yn seiliedig ar stori wir mewn pentref mwyngloddio lleol.

Prosiectau fydd yn cael eu lansio yng Ngwanwyn/Haf 2008

- Bydd *Theatr Arad Goch* yn agor ei drysau newydd yn Stryd y Baddon, Aberystwyth.
- Bydd *Small World Theatre* yn lansio ei adeilad celfyddydau cymunedol newydd y drws nesaf i *Theatr Mwldan* yn Aberteifi.

- Y flwyddyn nesaf, bydd *Llwybr Arfordirol Bae Ceredigion* yn cynnig llwybr arfordirol di-dor i ymwelwyr er mwyn cefnogi cyfleoedd hamdden a rheoli'r amgylchedd naturiol yng Ngheredigion.
- Bydd *Llwybr Ystwyth*, llwybr beicio sy'n rhedeg o Dregaron i Aberystwyth yn dilyn y cyn reilffordd yn cael ei agor yn swyddogol yn 2008.

Am fwy o wybodaeth ynghylch ein prosiectau gallwch ymweld â'n gwefan www.euceredigion.co.uk, anfon e-bost at y tîm ar ewro@ceredigion.gov.uk neu eu ffonio ar 01545 572063.

PHOTO CAPTIONS:
(Top left) EU Bird Hide at Cors Caron; (top middle) Teifi Estuary Project Launch in Cardigan; (top right) The New Visualisation Centre in Aberystwyth; (bottom left); Mydroilyn Village Hall (Bottom middle) Cwmsymlog Chimney on an old mining site, funded by *Ysbryd Y Mwynwyr-Spirit of the Miners*; (Bottom right) Interpretation facilities at the Welsh Wildlife Centre.

(Pen uchaf chwith) Cuddfan Adar yr UE yng Nghors Caron; (pen uchaf canol) Lansio Prosiect Aber y Teifi yn Aberteifi; (pen uchaf dde) y Ganolfan Ddelweddu Newydd yn Aberystwyth; (gwaelod chwith) Neuadd Pentref Mydroilyn. (Gwaelod canol) Simnai Cwmsymlog ar hen safle mwngloddio a ariannwyd gan *Ysbryd y Mwynwyr-Spirit of the Miners*; (Gwaelod dde) Cyfleusterau dehongli yng Nghanolfan Natur Cymru.

"This advert is sponsored by Ceredigion County Council.
Noddir Yr Hysbyseb Hon Gan Gyngor Sir Ceredigion."